

|                                 |  |
|---------------------------------|--|
| <b>Adroddiad i'r:</b>           | <b>Pwyllgor Craffu Perfformiad</b>   |
| <b>Dyddiad y Cyfarfod:</b>      | <b>21 Mawrth 2019</b>  |
| <b>Swyddog/Aelod Arweiniol:</b> | <b>Aelod Arweiniol Seilwaith Cymunedol<br/>Pennaeth Gwella Busnes a Moderneiddio</b> |
| <b>Awdur yr Adroddiad:</b>      | <b>Swyddog Enwau a Rhifau Strydoedd</b>  |
| <b>Teitl:</b>                   | <b>Gwybodaeth Polisi Enwau a Rhifau Strydoedd</b>                                    |

---

## **1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**

1.1 Adroddiad eglurhaol ar gyfer polisi Enwau a Rhifau Strydoedd Cyngor Sir Ddinbych (CSDd).

## **2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?**

Gwnaed cais gan y Pwyllgor Craffu i adolygu'r polisi.

## **3. Beth yw'r argymhellion?**

3.1 Bod Craffu yn adolygu polisi CSDd ac yn ystyried a oes angen newidiadau.

## **4. Manylion yr Adroddiad**

4.1 Mabwysiadwyd y polisi Enwau a Rhifau Strydoedd gan Sir Ddinbych yn y Cyngor Llawn ym mis Mehefin 2014. Roedd y polisi yn seiliedig ar arfer orau Awdurdodau Lleol eraill. Atodir y polisi cyfredol yn Atodiad 1.

4.2 Mae'r polisi cyfredol wedi ei addasu unwaith ers iddo gael ei fabwysiadu. Gwnaed cais gan ddatblygwr lleol i gynnwys "Cae" fel rhagddodiad i enwau stryd Cymraeg, gan nad oedd hwn ar y rhestr o enwau derbyniol. Ymgorfforwyd y newid hwn i'r polisi ac fe'i cymeradwywyd gan benderfyniad Aelod Arweiniol wedi'i Ddirprwyo ym mis Awst 2018.

4.3 Yn gyffredinol mae'r polisi wedi gweithio'n dda ers iddo gael ei fabwysiadu. Yn ystod y cyfnod hwnnw mae 20 o strydoedd newydd wedi eu henwi. Mae hyn wedi cynnwys safleoedd mawr yng ngogledd y Sir fel safle Aberkinsey lle cafodd y strydoedd enwau Cymraeg ar ôl milwyr sydd wedi marw. Bu datblygiadau llai hefyd ar draws yr Awdurdod fel y stryd newydd yn Llanrhaeadr sydd wedi ei henwi ar ôl y fferm oedd yn berchen ar y tir lle mae'r safle. Mae dwy stryd ddiennw wedi cael enwau stryd swyddogol yng Ngellifor ac yn Llanarmon-yn-lâl.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

5.1 Amh.

**6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

6.1 Amh.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Aseiad o Effaith ar Les? Gellir lawrlwytho adroddiad cyflawn yr Aseiad o Effaith ar Les oddi yma [website](#), a dylid ei gynnwys fel atodiad i'r adroddiad hwn.**

7.1 Amh.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda'r Pwyllgor Craffu ac eraill?**

8.1 Byddem yn croesawu unrhyw sylwadau gan y Pwyllgor Craffu.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

9.1 Amh.

**10. Pa risgiau sydd yna ac a oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

10.1 Amh.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

11.1 Deddf Llywodraeth Leol 1972

11.2 Mae Adran 7.4.1 o Gyfansoddiad y Cyngor yn amlinellu pŵer Craffu o ran datblygu ac adolygu polisi.

**Swyddog Cyswllt:**

Y Swyddog Enwau a Rhifau Strydoedd, y Tîm Cynllunio Strategol Ffôn: 01824 708049